# Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd) – 'Y Rheoliadau'

RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN, yn unol â Rheoliad 4 y Rheoliadau, mai nifer yr etholwyr sy'n cynrychioli 10% o'r etholwyr cofrestredig yn ardal weinyddol Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, ar y Dyddiad Dilysu statudol, sef 6 Hydref 2025, yw:

25,557

(Y Rhif Dilysu)

Yn unol â'r Rheoliadau, cyhoeddwyd y Rhif Dilysu uchod ar wefan y Cyngor ar 17 Hydref 2025.

Mae'r Rhif Dilysu yn cynrychioli'r nifer lleiaf o lofnodion dilys sy'n ofynnol ar Ddeiseb i sbarduno Refferendwm ynghylch a ddylai'r Cyngor fabwysiadu trefniadau gweithredol sy'n cynnwys Maer a Etholir yn Uniongyrchol; a bydd yn weithredol at ddibenion penderfynu ar ddilysrwydd unrhyw Ddeiseb o'r fath.

Gellir cyflwyno Deiseb i'r Cyngor, yng nghyfeiriad ei brif swyddfa isod, yn ystod y Cyfnod Deisebau statudol, sy'n dechrau ar 6 Mai 2026 ac yn dod i ben ar 6 Tachwedd 2026.

Mae'r rheolau ar gyfer Deiseb ddilys wedi'u nodi yn y Rheoliadau.

DMarles

**Debbie Marles**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro**

**Cyngor Caerdydd**
Neuadd y Sir, Ystafell 263
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

Dyddiad 17 Hydref 2025